OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1714

## Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

## RHAN 3

Arolygu Addysg Enwadol

**Dehongli: Rhan 3**

**13.** Yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn—

ystyr "addoli ar y cyd" ("*collective worship*") yw addoli ar y cyd fel sy'n ofynnol gan adran 70 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "addysg enwadol" ("*denominational education*"), mewn perthynas ag ysgol, yw unrhyw addysg grefyddol—

(a) sy'n ofynnol gan adran 101(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd i'w chynnwys yng nghwricwlwm sylfaenol yr ysgol, ond

(b) nad yw'n ofynnol, gan unrhyw ddeddfiad, ei rhoi'n unol â maes llafur y cytunwyd arno;

ystyr "arolygiad" ("*inspection*") yw arolygiad a wneir o ysgol o dan adran 50;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw'r person sy'n arwain yr arolygiad; ac

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*") yw'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1) o Atodlen 6.

**Cyfnodau rhwng arolygiadau**

**14.**—(1) Pan fydd yn ofynnol gan adran 50(1) i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sicrhau y rhoddir addysg enwadol i unrhyw ddisgyblion a bod cynnwys addoli ar y cyd yn yr ysgol yn cael ei arolygu, rhaid iddynt sicrhau bod yr arolygiad yn cael ei gynnal bob chwe blynedd.

(2) Mae cyfnodau'n mynd o—

(a) y dyddiad y cwblhawyd y cyfryw arolygiad diwethaf yn yr ysgol (o dan Ddeddf 1996 neu Ddeddf 2005); neu

(b) yn achos ysgol lle na chynhaliwyd y cyfryw arolygiad o'r blaen (o dan y naill Ddeddf na'r llall), y dyddiad y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol.

**Dewis arolygydd**

**15.** At ddibenion adran 50(2)(a) a (b), rhagnodir, yn berson y mae'n rhaid i lywodraethwyr sefydledig neu gorff llywodraethu (yn ôl y digwydd) ysgol yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Loegr neu ysgol Gatholig Rufeinig ymgynghori ag ef cyn dewis person i arwain arolygiad, yr awdurdod esgobaethol priodol.

(**1**) 2002 p.32.

**Adroddiadau a Chynlluniau Gweithredu**

**16.**—(1) Yn y rheoliad hwn, cyfeiriadau at baragraffau ac is-baragraffau o Atodlen 6 yw cyfeiriadau at baragraffau ac is-baragraffau (heb ymhelaethu ymhellach).

(2) At ddibenion paragraff 2(1), rhagnodir, fel y cyfnod y mae'n rhaid cynnal arolygiad ynddo, y cyfnod o bythefnos o'r dyddiad y cychwynnodd yr arolygiad.

(3) At ddibenion paragraff 2(2), rhagnodir, fel y cyfnod y mae'n rhaid i'r arolygydd baratoi ynddo, yn ysgrifenedig, adroddiad ar yr arolygiad a chrynodeb o'r adroddiad, y cyfnod o 35 o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad.

(4) At ddibenion paragraff 3(1), rhagnodir, fel y cyfnod y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu baratoi cynllun gweithredu ynddo, y cyfnod o ddeugain a phump o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y rhoddwyd adroddiad gan yr arolygydd.

(5) At ddibenion paragraff 3(2), rhagnodir, fel y cyfnod y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu anfon copïau ynddo o'r cynllun gweithredu at y personau y cyfeirir atynt yn yr is-baragraff hwnnw, pum niwrnod gwaith o'r dyddiad y bu iddynt orffen paratoi'r cynllun gweithredu.

(6) At ddibenion yr is-baragraff hwnnw, rhagnodir, yn bersonau y mae'n rhaid anfon copïau o'r cynllun gweithredu atynt o dan yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (7) o'r rheoliad hwn (yn ychwanegol at y personau a grybwyllir yn is-baragraff 3(2)), yr holl bersonau sydd naill ai'n bersonau a gyflogir fel athrawon yn yr ysgol neu bersonau (ac eithrio disgyblion) sydd, er na chyflogir hwy felly, yn cymryd rhan yn addoli ar y cyd yr ysgol ("personau perthnasol").

(7) Yr amgylchiadau yw bod y personau perthnasol wedi gofyn am gopïau o'r cynllun gweithredu.

**Ffioedd am ddarparu'r adroddiad a'r crynodeb ohono a'r cynllun gweithredu**

**17.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff corff llywodraethu ei gwneud yn ofynnol bod ffi yn cael ei thalu (nad yw'n fwy na'r gost o'u cyflenwi) os ydynt yn darparu—

(a) o dan baragraff 2(4)(b) o Atodlen 6—

(i) copi o adroddiad ar gyfer unrhyw berson sy'n gofyn am gopi ac y mae ei gartref neu ei brif swyddfa y tu allan i radiws o 4.828032 o gilometrau (tair milltir) i'r ysgol; neu

(ii) copi o grynodeb ar gyfer unrhyw berson y darparwyd eisoes gopi o'r crynodeb hwnnw ar ei gyfer; neu

(b) o dan baragraff 3(3)(b) o Atodlen 6, copi o gynllun gweithredu ar gyfer unrhyw berson—

(i) nad oes ganddo'r hawl fel arall i dderbyn copi o'r cynllun gweithredu hwnnw ac y mae ei gartref neu ei brif swyddfa y tu allan i radiws o 4.828032 o gilometrau (tair milltir) i'r ysgol; neu

(ii) y darparwyd eisoes gopi o'r cynllun gweithredu hwnnw ar ei gyfer.

(2) Ni chaniateir i gorff llywodraethu ei gwneud yn ofynnol bod ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1)(a) os yw'r ddogfen sy'n cynnwys y copi o'r adroddiad neu'r crynodeb, yn ôl y digwydd, yn rhan o ddogfen sy'n cynnwys copi o'r adroddiad neu o'r crynodeb y cyfeirir ato yn rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, neu os yw wedi'i rhwymo wrthi mewn ffordd arall a bod ffi wedi'i thalu o dan reoliad 12 o'r Rheoliadau hyn.